

**Y Pwyllgor Iechyd a  
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care  
Committee**

Eluned Morgan AS  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Llywodraeth Cymru

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
Seneddlechyd@senedd.cymru  
senedd.cymru/Seneddlechyd  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
Seneddlechyd@senedd.cymru  
senedd.cymru/Seneddlechyd  
0300 200 6565

22 Tachwedd 2021

Annwyl Eluned


**Y broses benodiadau cyhoeddus**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 28 Hydref, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu ddefnyddiol a llawn gwybodaeth gydag Emrys Elias ar 4 Tachwedd 2021. Er ein bod yn sylweddoli nad oedd gan y Pwyllgor rôl ffurfiol wrth benodi Mr Elias yn Gadeirydd dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, roedd yr Aelodau'n croesawu'r cyfle i archwilio gyda Mr Elias sut y mae'n bwriadu arwain y bwrdd iechyd, a beth yw ei flaenoriaethau.

Yn dilyn y sesiwn, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch gyda chwestiynau dilynol, a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod nifer o swyddi gwag tebyg yn debygol o godi yn ystod y Chweched Senedd, a byddai'n croesawu'n arbennig y sicrwydd y bydd y broses benodiadau cyhoeddus a Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant gysylltiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau bod y rolau'n denu cronfa ddigonol o ymgeiswyr amrywiol ac o ansawdd uchel.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 06 Ionawr 2022.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



## **Atodiad: cwestiynau dilynol ar ôl sesiwn graffu gyda Chadeirydd dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 4 Tachwedd 2021**

Yn dilyn y sesiwn graffu ar ôl penodi gydag Emrys Elias, Chadeirydd dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am y meysydd canlynol. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Iau 06 Ionawr 2022.

Y broses benodiadau cyhoeddus

---

Ym mis Mawrth 2020, cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd wrandawriad cyn penodi gyda'r ymgeisydd yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar gyfer rôl Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Yn ei adroddiad dilynol, mynegodd y Pwyllgor siom bod angen ailgynnal y broses hysbysebu ar gyfer swydd mor amlwg oherwydd diffyg ymgeiswyr addas. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu'r ystod o lwyfannau neu gynnyrch y rhoddwyd hysbysiadau ynddynt mewn ymgais i gyrraedd cynulleidfia ehangach ac o bosibl ddenu ystod mwy amrywiol o ymgeiswyr.

1. Bu angen trefniant dros dro y tro hwn oherwydd bod y broses o sylwedd wedi methu â chanfod person addas i'w benodi'n Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu sut y byddwch yn sicrhau yn y dyfodol bod rolau tebyg yn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr o ansawdd uchel, gan gynnwys pa gyfraniad a wneir gan Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.
2. Byddem hefyd yn croesawu rhagor o wybodaeth am ddull Llywodraeth Cymru o gynllunio olyniaeth ar gyfer swyddi uwch arweinwyr yn y GIG yng Nghymru.

Penodiadau dros dro

---

3. Er nad oes gan y Pwyllgor rôl ffurfiol mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus dros dro, byddem, serch hynny, yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penodiadau o'r fath, gan gynnwys sut y gwneir penderfyniadau ar fanyleb a hyd y rôl, a pha ffactorau a gaiff eu hystyried wrth ganfod y rhai a benodir dros dro.